

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Talyllychau yn Ysgol Gynradd Talyllychau nos Fawrth, 6 Chwefror 2018, am 7.30pm.

Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol: y Cynghorwyr: Marged Bowen (Cadeirydd), John Williams, Eifion Roberts, Janine Roberts, Sarah Walters, y Cyngorydd Sir Joseph Davies, a Jane Morgan (Clerc). Ymddiheuriadau: Rhys Williams, Pauline George a Nigel Lovatt.

Datganiad o Fuddiant. Datganodd y Clerc, Jane Morgan, fuddiant ynghylch llythyr gan Lywodraeth Cymru.

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

Materion sy'n codi.

Gwiriwyd y datganiad o gyfrif. Balans y cyfrif ar 26 Ionawr 2018. £6,799.53. Janine Roberts.

Roedd neges e-bost wedi dod i law gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn cadarnhau mai £8,000 oedd cyfanswm y praesept y gofynnwyd amdano ar gyfer 2018-19.

Toiledau Cludadwy. Cadarnhawyd bod Pat Bazzard, Penrhiwgeingen, wedi perchenogi'r toiledau cludadwy, a hynny oddi wrth Gyngor Cymuned Talyllychau. Nodwyd bod ffurflen yn derbyn ei pherchnogaeth wedi cael ei llenwi a'i llofnodi, a bod y cyfrifoldeb llawn am symud y toiledau cludadwy o'r Cae Cymunedol wedi dod i rym ar 31 Ionawr 2018. Roedd y Clerc wedi siarad â Paul Egan o Un Llais Cymru a gadarnhaodd fod y llythyr a lofnodwyd gan Pat Bazzard yn ddigonol at ddibenion Archwilio. Nodyn i gael ei lunio ar yr Archwiliad yn nodi bod y Toiledau Cludadwy wedi cael eu gwaredu, am nad oeddent yn ofynnol bellach. Y gwerth i gael ei ddileu o'r asedau. Roedd y toiledau wedi cael eu prynu ym mis Mai 2009 am £250. Dywedwyd nad oedd modd symud y toiledau ar y pryd am fod y cae mor wlyb. Nodwyd y byddai'r toiledau yn cael eu symud cyn gynted ag y byddai'r tywydd yn gwella. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y byddai'r toiledau yn cael eu tynnu oddi ar yr Yswiriant. Llythyr i gael ei anfon at Pat Bazzard yn rhoi gwybod iddi nad oedd y toiledau yn rhan o Yswiriant y Gyngor Cymuned am eu bod yn eiddo iddi hi bellach.

Toiledau Cyhoeddus.

Yn dilyn trafodaeth bellach, cytunwyd y byddai'r hysbysiadau a baratowyd yn cael eu gosod ar y ddau hysbysfwrdd, ar y wefan, ar dudalen Facebook y pentref, ac yn *Y Llychau*.

Anfoneb gwerth £25 gan Pinc am flodau a gafodd eu hanfon at Mair Hickman. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cael ei had-dalu.

Y Cae Chwarae a'r Cae Cymunedol. Y Clerc i wneud ymholiadau am ddiweddariad.

Diffibrilwyr.

Yn dilyn dau sesiwn hyfforddi llwyddiannus, cytunwyd y byddai hysbysiadau yn cael eu gosod ar y ddau hysbysfwrdd, ar y wefan, ar dudalen Facebook y pentref, ac yn *Y Llychau*.

Nodwyd nad oedd Mr Ian Thomas o elusen Cariad yn fodlon ar leoliad newydd y Diffibriliwr yng Nghwmdu.

Roedd neges e-bost wedi dod i law gan Philip James yn ymddiheuro na allai fod yn bresennol yn y sesiwn hyfforddi a gynhaliwyd, ac yn awgrymu y gallai arwyddion fod o gymorth yng Nghwmdu.

Roedd neges e-bost wedi dod i law gan Ms Karen Maguire yn ymddiheuro na allai fod yn bresennol yn y sesiwn hyfforddi, ac yn awgrymu symud y Diffibriliwr i dir ynghanol y pentref sy'n cael ei gadw gan Hywel Jones, pe byddai hynny'n dderbyniol. Cytunwyd i gysylltu â Hywel Jones i ofyn am ganiatâd i leoli'r Diffibriliwr ar ei dir, pe byddai hynny'n addas.

Yn ei neges e-bost, roedd Karen Maguire hefyd wedi gofyn i'r Cyngor gysylltu â Chyngor Sir Caerfyrddin i glirio'r holl sbwriel ar ymylon y ffordd rhwng Talylychau a Llandeilo. Cytunwyd y byddai llythyr yn cael ei anfon i Gyngor Sir Caerfyrddin.

Roedd llythyr wedi dod i law gan Daliadau Gwledig Cymru, Llywodraeth Cymru.

Datganodd y Clerc, Jane Morgan, fuddiant, a gadawodd yr ystafell.

Cytunodd Janine Roberts i gofnodi'r eitem hon.

Darllenodd Marged Bowen llythyr a oedd wedi dod i law gan Daliadau Gwledig Cymru, dyddiedig 19 Ionawr 2018, ynghylch hysbysiad am drosglwyddo perchenogaeth tir. Roedd y llythyr yn diolch i'r Cyngor am y llythyr a anfonwyd at yr adran, ac yn ymddiheuro am y gwall a wnaed. Roedd y llythyr hefyd yn rhoi gwybod bod y manylion wedi cael eu cywiro bellach.

Daeth y Clerc, Jane Morgan, yn ei hôl i'r ystafell.

Asedau.

Cytunwyd i dynnu'r eitemau canlynol oddi ar y Gofrestr Asedau, a nodi eu bod wedi cael eu gwaredu:

Toiledau Cludadwy. Byrddau a Meinciau.

Gohebiaeth.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, £30.20.

Yswiriant Zurich, £501.29.

Roedd yr

ohebiaeth a oedd wedi dod i law gan Zurich wedi cael ei hanfon ymlaen at y Cynghorwyr trwy e-bost. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd nad oedd angen yswirio'r canlynol bellach: Toiledau Cludadwy, Gataiu, Byrddau a Meinciau. Cytunwyd y byddai'r canlynol yn parhau i gael eu hyswirio: Y Pafiliwn a'r Cyfarpar Chwarae, y Prif Gataiu ym Mynwent yr Eglwys, a'r Diffibrilwyr. Y Fainc Fetel i gael ei hychwanegu am £400.

Gohebiaeth.

Dosbarthwyd a thrafodwyd yr ohebiaeth ganlynol:

Nodwyd y byddai'r broses o enwebu Is-gynrychiolydd yr Awdurdod ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Talylychau yn cael ei thrafod yn y cyfarfod nesaf.

Roedd y Cyngor wedi cael gwybod gan Gyngor Sir Caerfyrddin nad oedd yn rhaid i'r Cynrychiolydd fod yn aelod o'r Cyngor, ond bod yn rhaid iddo gael ei enwebu gan y Cyngor.

Llythyr gan Fforwm Cydnerthedd Lleol Dyfed Powys.

Llythyr gan Gofal Canser Tenovus.

Llythyr gan Glwb Cinio Talylychau a Llansawel.

Llythyr gan Gyngor Sir Caerfyrddin ynghylch Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin – i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

Arolwg Materion Gwledig Cyngor Sir Caerfyrddin – i'w lenwi yn y cyfarfod nesaf.

Tendrau Torri Glaswellt ar gyfer Mynwent yr Eglwys a'r Cae Cymunedol.

Mynwent yr Eglwys. Y tendr fel y llynedd, ond cytunwyd i ddiwygio'r canlynol: Rhif 3. Sicrhau bod y llwybrau yn cael eu hysgubo'n lân, a bod ymylon y llwybrau yn cael eu tocio. Rhif 5. Gwneud y gwaith a nodwyd uchod unwaith y mis yn ystod pob mis calendr, a thua chanol mis Mai, Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi. Y tendrau i fod yn llaw'r Clerc erbyn 31 Mawrth 2018.

Y Cae Cymunedol. Y tendr fel y llynedd, ond cytunwyd i ychwanegu'r canlynol at Rif 2: "Strimio o gwmpas y Maes Chwarae a'r Pafiliwn". Y tendrau i fod yn llaw'r Clerc erbyn 31 Mawrth 2018.

Y tendrau i gael eu gosod ar y ddau hysbysfwrdd, ar y wefan, ar dudalen Facebook y pentref, a chael eu hanfon ymlaen at unrhyw geisiadau o ddiddordeb.

Roedd neges e-bost wedi cael ei dosbarthu i'r Cynghorwyr gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon Talylychau ynghylch y Manteision o gael dôl wyllt ym Mynwent yr Eglwys. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i ateb fel a ganlyn: Yn anffodus, nid yw'r Cyngor yn meddwl ei fod yn syniad ymarferol ar gyfer Mynwent yr Eglwys, ond byddai'r Cyngor yn fwy na pharod i ystyried cynllun tebyg ar gyfer y Cae Cymunedol.

Rhoddion.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i wneud y rhoddion canlynol:

Clwb Cinio Talylychau a Llansawel, £100.00.

*Y Lloffwr*, £50.00. *Ambiwlans Awyr Cymru*, £250.00. *Y Llychau*, £50.00.

Archwilydd Mewnol. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu â Mr Lyn Llewelyn.

Y Cinio Blynnyddol i gael ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben tua 10.15pm. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 6 Mawrth 2018, am 7.30pm.